


Enid Blyton[®]

SAITH SELOG

STORI
FER

Arlunwaith Lliw gan

Tony Ross



Llyfr Llafar
gyda
chôd QR

ANTUR AR Y FFORDD
ADREF

Y fersiwn Saesneg

Hawlfraint y testun © Hodder & Stoughton, 1955
Hawlfraint yr arlunwaith © Hodder & Stoughton, 2014
Cyhoeddwyd y fersiwn hon am y tro cyntaf
gan Hodder & Stoughton yn 2016

Mae llofnod Enid Blyton a'r *Secret Seven* yn nodau masnach sydd
wedi'u cofrestru gan Hodder & Stoughton Cyf

Cyhoeddwyd y testun gyntaf ym Mhrydain Fawr yn ail rifyn
Cylchgrawn Blynyddol Enid Blyton yn 1955. Mae'r stori fer hon
hefyd ar gael yn *The Secret Seven Short Stories Collection* sydd wedi'i
gyhoeddi gan Lyfrau Plant Hodder.

Mae hawliau Enid Blyton a Tony Ross wedi'u cydnabod fel
Awdur a Arlunydd y gwaith hwn.

Mae eu hawliau wedi'u datgan dan Ddeddf Hawlfreintiau,
Dyluniadau a Phatentau 1988.

Mae'r cyfan o'r cymeriadau yn y cyhoeddiad hwn yn ddychmygol ac
mae unrhyw debygrwydd i bobl go iawn, boed yn fyw neu'n farw yn
hollol ddamweiniol.

Y fersiwn Cymraeg

Y cyhoeddiad Cymraeg © Atebol Cyfyngedig,
Adeiladau'r Fagwyr,
Llanfihangel Genau'r Glyn,
Aberystwyth,
Ceredigion SY24 5AQ

Cyhoeddwyd gan Atebol Cyfyngedig yn 2016
Addaswyd i'r Gymraeg gan Manon Steffan Ros

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths

Golygydd gan Adran Olygyddol Cyngor Llyfrau Cymru

Cyhoeddwyd gyda chymorth ariannol gan Gyngor Llyfrau Cymru
Cedwir y cyfan o'r hawliau. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r
cyhoeddiad hwn na'i throsglwyddo ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd,
electronig neu fecanyddol, gan gynnwys llungopiō, recordio neu drwy gyfrwng
unrhyw system storio ac adfer, heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.




PENNOD 1	9
PENNOD 2	17
PENNOD 3	27
PENNOD 4	35
PENNOD 5	43
PENNOD 6	53
PENNOD 7	61
PENNOD 8	73

PENNOD 1



‘Wel, mae hi’n bryd ei throi
hi am adref,’ meddai Pedr, gan
edrych ar ei oriawr. ‘Mae gen i
domen o waith cartref.’



Tyrd, Sioned. Diolch am bob dim, Colin.'

'Roedd hi'n braf cael pawb yma!' meddai Colin wrth i Pedr a Sioned a gweddill y Saith Selog godi i adael. Roedd o wedi gwahodd pawb i'w gartref i gael te ar bnawn gaeafol, tywyll. Bu'r criw yn chwarae cardiau a sawl gêm gyffrous o tidliwincs, ac roedd Sioned wedi curo pawb

wrth orffen y jig-so.

‘Ew – tydi hi’n dywyll?’
sylwodd Bethan wrth iddyn
nhw sefyll ar garreg y drws.
‘Wela i ’run seren! Oes gan
rywun fflachlamp?’

Goleuodd y bechgyn y
llwybr at giât yr ardd gyda’u
fflachlampau. Ffarweliodd
Colin â’i ffrindiau a chau’r
drws. Rhedodd Sgamp, y
sbaniel lliw euraid, o flaen y

lleill – roedd yntau wedi cael
dod am de, wrth gwrs.



Cerddodd y chwech i lawr y
lôn dywyll.

‘Mi fedrwn ni fynd ar
y llwybr ar hyd y gamlas,’

meddai Pedr. 'Dydy o ddim yn
bell o dŷ Gwion.'

'Dwi ddim yn hoffi
cerdded y llwybr 'na,' cwynodd
Mali. 'Mae o mor dywyll.
Gallai unrhyw beth ddigwydd i
ni!'

'Bobol bach!' meddai
Jac. 'Dim ots gen i os oes
rhywbeth yn digwydd! Mi
fyddai'n hwyl. Byddwn i wrth
fy modd efo tipyn o antur!

Mae'r holl gemau 'na wedi
codi awydd am hwyl arna i!'

'Wel, dydy anturiaethau
byth yn dod os wyt ti'n eu
disgwyl nhw,' meddai Sioned,
cyn baglu dros fin sbwriel
roedd rhywun wedi'i adael ar y
palmant.

CRASH!

PENNOD 2



Gwaeddodd Sioned, a throdd
yr hogiau eu fflachlampau i
gael golwg arni. Cododd Jac
gaead y bin, oedd wedi disgyn



ar lawr, a brysiodd Pedr i weld
a oedd ei chwaer wedi brifo.
Rhwbiodd Sioned ei phen-
glin.

‘Ddylwn i wybod yn
well na sôn am anturiaethau!’
llefodd. ‘Aw! Fy mhen-glin i!
Pam yn y byd byddai rhywun
yn gadael bin mewn lle mor
wirion?’

Wrth i bawb wrando ar
Sioned yn cwyno, dechreuodd

Sgamp **chwyrnu**. Trodd Pedr ei fflachlamp at y ci.

‘Be sy, Sgamp? Wnest ti ddychryn pan syrthiodd y bin i’r llawr?’

Syllodd Sgamp ar draws y lôn, yn llonydd fel delw gyda’i gynffon yn isel. Edrychodd y plant i’r un cyfeiriad hefyd. Beth oedd wedi dwyn sylw Sgamp?

Safai rhes o adeiladau

tal, swyddfeydd a ffatrioedd bychain, yn dywyll a llonydd. Dim ond un ffenest oedd â golau ynddi, a golau gwan iawn oedd hwnnw gan fod hen len ddarniog yn hongian dros y ffenest.

Wrth i’r chwech syllu, daeth sgrech uchel o rywle, gan godi ofn ar bawb.

Chwyrnodd Sgamp eto, a chododd y blew ar gefn ei



wddf – arwydd pendant fod
rhywbeth yn ei boeni.

‘Mae rhywbeth o’i le,’
meddai Pedr yn anesmwyth.
‘Be wnawn ni? Gwrandewch –
mae rhywun yn gweiddi!’

Clustfeiniodd pawb,
pob llygad wedi’i hoelio ar y
fffenest â’r llen drosti.

Yn sydyn, daeth cysgod
dros y llen, a daliodd Sioned
yn dynn ym mraich Mali.



‘Sbiwch! Cysgod dyn
oedd hwnna, ac roedd o wedi
codi ei law, fel petai ar fin
taro rhywun! O, a dyna sgrech
arall! Pedr, be wnawn ni?’

‘Mi a’i i ddweud wrth
Colin,’ meddai Jac, ‘ac mi ddo’

i â rhaff yn ôl efo fi. Bydd raid
i rywun ddringo at y ffenest
acw i weld be sy’n digwydd.
Rhowch ddau funud i mi!’

PENNOD 3



Brysiodd Jac yn llawn cyffro i
dŷ Colin. Mwythodd Pedr ben
Sgamp, oedd yn dal i chwyrnu.
'Dewch i ni gael trio'r drws,'

meddai. 'Pwy a wŷr, efallai
ei fod o ar agor. Byddai'n
llawer haws mynd i fyny'r
grisiau na gorfod potsian efo
rhaff!'

Croesodd pawb y lôn
yn betrus, gan ddiffodd eu
fflachlampau. Roedd set o
risiau yn arwain at y drws.

I fyny â Pedr, a throi
bwlyn y drws. Ond wnaeth o
ddim agor. Roedd y drws ar





glo, fel roedd o wedi disgwyl.
Edrychodd i mewn drwy'r
blwch llythyrau, gan fflachio'i
lamp drwy'r twll. Ond y cyfan
a welai oedd ystafell dywyll,
lychlyd, a bocsys wedi'u
pentyrru'n uchel ar un ochr
iddi. Roedd hi'n amlwg mai
adeilad yn llawn swyddfeydd
oedd hwn, neu ystordy mawr.

'Does dim byd i'w weld,'
meddai Pedr gan ddiffodd y

lamp. 'Bobol annwyl, mae 'na
rywbeth rhyfedd am hyn i
gyd. Roedd y **sgrech** 'na yn
annae-arol!'

Teimlai'r pump yn
anghysurus iawn, ac roedd
ofn ar Bethan. Swniai'r
sgrechfeydd o'r swyddfa
mor **ddychrynlyd** a'r
wylo mor ddigalon – ac
erbyn hyn roedd sŵn **taro**
hefyd.

Beth oedd yn digwydd yn
yr adeilad? 'Dyna ni – dwi'n
mynd at yr heddlu,' meddai
Pedr yn benderfynol.

PENNOD 4



‘Genod, dewch efo fi. Gwion,
arhosa di yma efo Sgamp.’

Ond doedd Sgamp ddim
eisiau aros gyda Gwion.

Roedd o eisiau bod gyda Pedr a Sioned, wrth gwrs. Felly, yn y diwedd, brysiodd Pedr at yr heddlu ar ei ben ei hun, gan adael Gwion a'r tair merch gyda Sgamp.

Ar y stryd nesaf, bu bron i Pedr daro i mewn i Colin a Jac.

Roedd Colin yn llawn cyffro, a lein ddillad ei fam yn ei ddwylo – dyna'r unig



raff y medrai ddod o hyd iddi.
Syllodd ar Pedr dan olau gwan
y stryd.

‘Be sy’n bod, Pedr? Be
sydd wedi digwydd? Pam wyt
ti’n rhedeg?’ gofynnodd Jac.

‘Dwi’n mynd at yr
heddlu,’ atebodd Pedr. ‘Mae
’na rywbeth difrifol yn
digwydd yn yr adeilad yna, ac
mae rhywun yn cael ei frifo!’

Brysiodd ymaith, a

rhedodd Colin a Jac i ymuno â
Gwion a’r merched.

‘Dwi’nôl,’ meddai Colin
a’i wynt yn ei ddwrn, ‘a dwi
wedi dod â’r rhaff. Siawns
y medrwn ni weld be sy’n
digwydd rwan!’

Trodd ei fflachlamp
i gael gweld yr adeilad, a
phwyntiodd Jac at arwydd
oedd yn hongian ar bolyn o
dan y ffenest.



‘Tafla’r rhaff dros y polyn
sy’n dal yr arwydd,’ meddai
wrth Colin. ‘Dyma ti – clyma
garreg wrth un pen, a thafla hi.
Gawn ni ddringo i fyny wedyn.’

Ar ôl clymu’r garreg
wrth un pen i’r rhaff, taflodd
Colin y rhaff dros yr arwydd a
syrthiodd y pen oedd â’r garreg
arno i lawr at y criw.

PENNOD 5



‘Grêt – rŵan mae gynnon ni
raff ddwbl i’w dringo,’ meddai
Colin yn fodlon.

Clymodd ddau ben y



rhaff at ei gilydd er mwyn i
Jac gael dringo'n ddiogel.

‘Dyna ti,’ meddai.

‘Bydd o fel dringo rhaff yn
y gampfa! Mi ddalia i'r rhaff
yn dynn.’

‘Brysiwch, neno'r
tad!’ meddai Mali wrth i
waedd arall ddod o'r ffenest
uwchben. ‘Fedra i ddim
dioddef y sŵn 'ma!’

Llamodd Jac i fyny'r

rhaff. Cyrhaeddodd yr
arwydd oedd o dan y ffenest,
a dringo arno'n ofalus.
Eisteddodd ar yr arwydd,
cyn codi ar ei draed yn
araf er mwyn gallu sbecian
drwy'r ffenest. Eisteddodd
ar y sil a syllu drwy'r rhwyg
yn y llen. Gwnaeth yr hyn
a welodd iddo lithro i lawr
y rhaff mor sydyn nes iddo
bron â brifo ei ddwylo.



'Be oedd yna? Be
welaist ti?' gofynnodd y lleill
yn frwd.

'Bobol bach,' meddai
Jac, gan rwbio'i ddwylo at
ei gilydd. 'Diolch byth fod
Pedr wedi mynd i nôl yr
heddlu. Mae 'na ryw naw o
bobol yn yr ystafell, a phawb
yn wyllt gacwn. Mae hen
wyneb blin gan bob un, ac
maen nhw'n gweiddi ar ei



gilydd ... mae ganddyn nhw
gyllyll, ac mae dau ohonyn
nhw'n gorwedd ar lawr, ac
un ferch druan ar ei gliniau,
a ...'

'Iesgob annwyl!'
gwaeddodd Colin, wedi
dychryn, ac ebychodd y lleill
mewn braw. Chwyrnodd
Sgamp yn ddi-baid, ac yna
cyfarthodd mor uchel
nes i'r plant neidio. Daeth


sŵn traed yn rhedeg, a
daliodd pawb eu gwynt.

Pwy oedd yn dod ar
ffasiwn frys?

PENNOD 6



A! Diolch byth, Pedr oedd
yno, a dau heddwes mawr efo
fo. Ochneidiodd pawb mewn
rhyddhad. Rhedodd Pedr at ei



ffrindiau.

‘Oes ’na rywbeth arall
wedi digwydd? Dwi angen
clywed y cyfan!’

‘Mi ddringais i’r arwydd
acw ac edrych i mewn drwy’r
rhwyg yn y llen,’ eglurodd Jac.
‘Mae ’na **ffrae** ofnadwy’n
digwydd, ac wedyn ...’

Gwrandawodd y ddau
heddwas yn astud wrth i Jac
ddisgrifio’r hyn roedd o wedi’i

weld. Doedd dim smic i'w
glywed o gyfeiriad y ffenest
bellach – dim gwaedd na
sgrech na sŵn cwffio. Oedd
y bobol yn y swyddfa wedi
clywed yr heddlu'n cyrraedd?

‘Awn ni i mewn i'r
adeilad,’ meddai un o'r heddlu.
‘Dydi'r ffenest waelod yma
heb ei chau yn iawn. Rho help
llaw i mi, Jo.’

I mewn â'r ddau heddwlas



– ac, wrth gwrs, dilynodd y
Saith Selog ar unwaith. Roedd
y criw'n benderfynol o fod
yn rhan o'r hwyl, a theimlai'r
ffrindiau'n fwy diogel gan fod
dau heddwes mawr cryf efo
nhw. Cafodd Sgamp ei adael i
swnian yn ddigalon tu allan.

Brysiodd pawb drwy'r
swyddfa ar lawr gwaelod yr
adeilad, cyn dringo'r grisiau.
Symudodd y ddau heddwes

yn gyflym ond yn dawel.
Dilynodd y Saith rai camau y
tu ôl iddyn nhw – rhag ofn i'r
heddlu eu gweld a'u hanfon
nhw o'r adeilad – ac arhosodd
pawb mor dawel â llygod
eglwys, a'u calonnau'n curo'n
gyflym.

Bobol bach, am antur!

PENNOD 7



Pwylodd y ddau heddwes
wrth agosáu at ddrws oedd â
mymryn o olau yn disgleirio
oddi tano. Safodd y ddau i



glustfeinio. Closiodd y Saith
yn betrus, a sefyll ar y landin,
gan obeithio na fyddai'r
heddlu yn eu gweld.

Daeth llais cras o'r
ystafell. 'Ar dy draed, y
munud 'ma! Dyna ddigon o
orffwys. Lle mae 'nghyllell
i? **Sgrechia**, Magi, ac Al,
bloeddia di arni ...'

Yna dechreuodd y gweiddi
a'r sgrechian eto, ynghyd â sŵn

taro mawr. Rhaid bod cwffas
ffyrnig wedi ailddechrau!
Crynai'r plant gan ofn.

Gwthiodd un o'r heddlu'r
drws, a llifodd golau llachar
allan i'r landin. 'Beth ydi
hyn? Be sy'n digwydd yma?'
gofynnodd yr heddwes cyntaf
wrth gamu i'r ystafell. Trodd
pawb ato a syllu'n syn.

'Wel, dyna i chi
gwestiwn! Beth ydach




chi'n ei wneud yma, dyna
hoffwn i ei wybod!' meddai
llais blin. Gwelodd Pedr fod
gan y dyn gyllell yn ei law.
'Rydan ni wedi cael caniatâd
y perchennog i ddefnyddio'r
stafell – gofynnwch iddo fo!
Rydan ni i gyd yn gweithio
yma.'

'Efallai wir. Ond be ydi'r
holl ffraeo a chwffio yma – a
plis rhowch y gyllell yna i

lawr, syr,' meddai'r heddwas,
gan estyn am lyfr nodiadau a
phensil o'i boced.

Camodd merch ifanc
ymlaen ato, a chanddi fochau
cochion, colur du a gwyrdd o
amgylch ei llygaid, a mop o
wallt blêr fel wig ar ei phen.
Chwarddodd y ferch.

'Oeddech chi'n meddwl
mai ffrae go iawn oedd hyn?'
gofynnodd. 'Ddim o'r fath




beth! Rydan ni'n ymarfer ar
gyfer drama am fôr-ladron,
ac mae 'na gwffio yn yr olygfa
hon. Rydw i'n cael fy nghipio
ac mae'r môr-ladron yn

ymladd yn erbyn y rhai sy'n
dod i fy achub i. Rhaid i mi
sgrechian! Mae'r perfformiad
cynta nos fory – dyna pam ein
bod ni'n gwisgo'r colur yma.'

Cafodd y ddau heddwas
dipyn o sioc, ac i ffwrdd â nhw
gan ymddiheuro.

Brysiodd y Saith Selog i
lawr y grisiau mewn embaras.
Bobol annwyl, dim ond
ymarfer drama roedd y bobol

wedi'r cyfan. Roedd y Saith yn
siŵr o gael ffrae am fynd at yr
heddlu heb reswm!



PENNOD 8



Ond chafodd neb ffrae. Roedd
y ddau heddwes yn glên iawn
am bopeth. 'Mi wnaethoch chi'r
peth iawn,' meddai un heddwes.

‘Gallai’r cyfan fod wedi bod yn
ddifrifol, ond wyddech chi ddim
am hynny. Rŵan, gwell i chi
fynd adref cyn i chi ddod o hyd
i fwy o anturiaethau – mi fydd
eich rhieni’n poeni amdanoch!’

Esboniodd Pedr wrth
ei rieni pam ei fod o, Sioned
a Sgamp yn hwyr. Roedden
nhw’n falch iawn i’w cael nhw
adref yn saff! Chwarddodd tad
Pedr pan glywodd yr hanes.

‘Wel, rydach chi wastad
a’ch trwynau mewn antur!
Beth am i mi gael tocynnau i
weld y ddrama fôr-ladron nos
fory i bob un o’r Saith Selog?’

‘Ew, ia!’ atebodd Pedr
yn llawen. ‘Am ddiweddglo
gwych i antur oedd ddim yn
antur o gwbl. Ond, bobol
annwyl, roedd hi’n teimlo fel
antur, doedd, Sioned?’

‘Oedd wir,’ cytunodd



Sioned. 'Ond rŵan fod popeth
yn iawn, gobeithio nad ydi
gweddill y Saith Selog mewn
trwbl efo'u rhieni.'

A doedd neb – heblaw
Colin, oedd wedi gadael lein
ddillad ei fam yn hongian dros
yr arwydd! Mae ei fam yn
dweud na chaiff o fynd i weld y
sioe fôr-ladron nes ei bod hi'n
cael ei lein yn ôl! Paid â phoeni,
Colin – mae'r lein yn dal yno!





PEDR



SIONED



JAC



COLIN



GWION



MALI



BETHAN

Cyflwyniad delfrydol i ddarllenwyr
newydd, a ffordd gyffrous i edmygwyr
Blyton fwynhau'r hen ffefrynnau.



Daw sŵn sgrechian a chwffio
o'r adeilad ger y gamlas. A wnaiff
y Saith Selog gyrraedd yno cyn
i bethau fynd dros ben llestri?

ISBN 978-1910574515



9 781910 574515 >

www.atebol.com



atebol



£5.99